**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**8 Chwefror 2016**

# ADBORTH Y COMISIYNYDD AR ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Adrodd ynghylch yr adborth a ddaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar Adroddiad Monitro'r Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2014-15.

## Cefndir

2 Bob blwyddyn, mae gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gyflwyno adroddiad manwl ar ei Gynllun Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Adroddiad Monitro yn rhoi manylion ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chyrraedd y targedau a amlinellir yng Nghynllun 2010-13. Cymeradwywyd yr adroddiad gan Aelodau'r Panel Gweithredol yn y cyfarfod fis Gorffennaf diwethaf. Ers hynny mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi derbyn adborth ffurfiol ar adroddiad eleni a mae swyddogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr y Comisiynydd i fynd drwy'r adborth yn fanwl.

## Gwybodaeth

3 Roedd y Comisiynydd yn croesawu sawl agwedd o waith y Gwasanaeth mewn perthynas â'r Gymraeg, ynghyd â'r cynnydd cyffredinol a wnaed wrth weithredu'r Cynllun Iaith yn ystod 2014-15, ac yn nodi'r canfyddiadau cadarnhaol canlynol;

- Mae canlyniadau cadarnhaol a gwelliannau'n dystiolaeth fod y Gwasanaeth yn parhau wedi ymrwymo i'r Gymraeg, er gwaethaf cyllidebau'n lleihau a heriau ariannol.
- Er gwaethaf gostyngiad pellach ym maint y gweithlu, mae strategaeth y Gwasanaeth mewn perthynas â'r Gymraeg yn parhau i fod yn effeithiol wrth godi lefel sgiliau o ran siarad Cymraeg.
- Mae gan y Gwasanaeth ddealltwriaeth dda o broffil sgiliau iaith ei weithlu a pha feysydd i'w targedu ar gyfer gwella.
- Mae sgiliau Cymraeg y staff yn parhau i wella – gyda gostyngiad yn nifer y staff sy'n dal â sgiliau ar lefelau isel Lefel 0 neu 1, cynnydd yn nifer y staff sy'n cyrraedd isafswm y lefel sgiliau (Lefel 2 neu uwch), a chynnydd yn nifer y staff sydd wedi cyrraedd y sgiliau angenrheidiol ar Lefel 3 neu 4 ar gyfer eu swydd eleni.
- Mae cryn welliant yn sgiliau siarad Cymraeg ymhlith staff sydd mewn rolau mewn prif dderbynfeydd a gweithredwyr yr ystafell reoli.

4 O ran perfformiad, nododd y Comisiynydd y ffaith fod y Gwasanaeth wedi lansio modiwl e-ddysgu ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth Iaith, sy'n gwneud yr hyfforddiant yn fwy hygyrch i'r staff.

5 Hefyd, nododd y Comisiynydd fod cyfweliadau yn Gymraeg yn cael eu cynnig wrth recriwtio staff a bod pedwar aelod newydd o'r staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl wedi cael eu penodi i'r Adran Adnoddau Dynol yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf.

6 O ran staffio, nodwyd bod systemau rota wedi cael eu hadolygu er mwyn ystyried y Gymraeg fel y bo modd ymdrin ag argyfyngau drwy gyfrwng y Gymraeg pan fo angen.

7 Roedd y Comisiynydd wedi gofyn am ragor o wybodaeth am nifer o agweddau penodol ar ein gwaith mewn perthynas â'r Gymraeg – darparwyd hyn yn fanwl ac roedd y Comisiynydd yn fodlon.

8 Yn 2011, cyflwynwyd Mesur y Gymraeg (Cymru), a dyma sy’n gosod y fframwaith cyfreithiol i sefydliadau gydymffurfio â safonau statudol mewn perthynas â’r Gymraeg. Mae’r safonau hyn wrthi’n cael eu cyflwyno’n ffurfiol. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i weithio tuag at ateb gofynion y safonau newydd gan gydweithio â’r ddau wasanaeth tân ac achub arall yng Nghymru a rhannu arferion da gyda Heddlu Gogledd Cymru. Mae ein Cynllun Iaith presennol, sef 2010-13, yn ymestyn hyd nes y bydd y safonau newydd yn dod i rym.

**Argymhelliad**

9 Bod yr Aelodau’n nodi’r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag ymrwymiad y Gwasanaeth i sicrhau hyrwyddo parhaol o'r iaith Gymraeg.